Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
National Assembly for Wales
**Public Accounts Committee**

Suzy Davies AC
Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Chwefror 2020

Annwyl Suzy,

**Craffu ar Gyfrifon 2018-19**

Diolch am eich ymateb i Adroddiad y Pwyllgor; fe'i hystyriwyd ar 10 Chwefror. Cytunwyd y byddwn yn gofyn am ragor o eglurder o ran gwrthod Argymhellion 1 a 4.

**Argymhelliad 1**:Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd yn y targed gorwariant (o 0.5 y cant i 1.5 y cant) gan ei fod yn mynd i'r afael, yn rhannol, â'n pryder am y risg o wario i gyrraedd y targed. Fodd bynnag, rydym o'r farn o hyd nad yw'r targed ei hun yn ddangosydd addas, gan nad yw'n cysylltu gwerth am arian ac effeithlonrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rydym yn gwerthfawrogi bod y Comisiwn yn cael penderfynu drosto ei hun ynghylch targedau, ond gofynnwn i fesur targed yn ystod y flwyddyn gael ei ystyried.

**Argymhelliad 4**: Yn yr un modd ag Argymhelliad1, mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y Comisiwn wedi pennu'r targed hwn yn dilyn ymarfer meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn siomedig na phennwyd targed mwy uchelgeisiol, a gofynnwn i'r Comisiwn ailystyried hyn a myfyrio ar ei gyfres gyfan o ddangosyddion i sicrhau bod y targedau'n annog y Comisiwn i ymestyn ei hun.

**Yn olaf, mewn perthynas ag Argymhelliad 5,** croesawodd y Pwyllgor ymrwymiad y Comisiwn i ymgynghori â staff ynghylch cyhoeddi canlyniadau'r arolwg staff

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
0300 200 6565

blynyddol. Byddwn yn croesawu diweddariadau ar y fenter hon, pan fyddant ar gael.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

CC: Comisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg/We welcome correspondence in Welsh or English